## **Telerau ac Amodau**

1. Caiff pob sgaffald ei godi'n ddiogel ar y diwrnod y bydd yn cyrraedd gan neu dan oruchwyliaeth uniongyrchol person cymwys a phrofiadol yn gwneud gwaith o'r fath. Ni chaiff cydrannau dros ben eu storio ar unrhyw ran o'r briffordd oni bai eu bod wedi eu diogelu gan ardal wedi ei ffensio. Yn yr un modd rhaid symud sgaffald o'r safle ar y diwrnod y caiff ei ddatgymalu.

2. Dylid darparu er mwyn eithrio'r cyhoedd o'r ardal waith yn ystod cyfnod codi a datgymalu'r sgaffald, gydag arwyddion digonol a gofal dros y safle ac unrhyw lwybrau gwyro.

3. Dylid codi a datgymalu sgaffaldau yng nghanol y Ddinas ac ar brif heolydd ar ddyddiau Sul (oni bai y cytunir fel arall gan Gyngor Caerdydd).

4. Dylai'r sgaffald fod wedi ei oleuo'n briodol bob amser rhwng hanner awr wedi'r machlud i hanner awr cyn toriad gwawr neu yn ystod niwl.

5. Lle bo'n briodol dylid cynnal mynedfa i gerddwyr drwy'r sgaffald ac mae'r amodau canlynol yn weithredol:-
   a. Dylid neilltuo lleiafswm cliriad pen o 2.3 metr
   b. rhaid i bob sgaffald o dan 2.3metr, gan gynnwys platiau sail, gael eu lliwio'n gyfatebol addas gan ddefnyddio ewyn melyn fel bod cerddwyr wedi eu rhybuddio rhag presenoldeb sgaffaldau.
   c. Rhaid codi sgaffaldau fel nad oes unrhyw glymau neu fresys yn rhwystr ar y briffordd islaw uchder o 2.3 metr. Os oes angen traws-graffrwymo ar lefel y ddaear i warchod cadernid y sgaffald, yna dylid codi byrddau fertigol i isafswm uchder o 2.1 metr.
   d. Dylid cadw lled di-rwystr ar hyd y llwybr troed o 1.5 metr mewn mannau prysur i gerddwyr. Gall fod lleiafswm o 1.2 metr yn dderbyniol mewn mannau llai poblog. Rhaid cynnal y lled er mwyn caniatáu defnyddwyr cadeiriau olwyn neu'r rheiny sy'n defnyddio cŵn tywys i basio'n ddiogel trwy'r sgaffald.

6. Caiff y sgaffald ei gadw o leiaf 450mm o ymyl y lôn gerbydau hyd at uchder o 5.5 metr wedi ei fesur o lefel y sianel

7. Ystyrir bod sgaffald sy'n nes na 450mm i ymyl y lôn gerbydau, neu safle arfaethedig y sgaffald yn debygol o gael ei ddifrodi gan drawiad yn sgil cerbydau'n pasio. Dan yr amgylchiadau hyn, dylid darparu rhwystrau wedi eu diogelu, eu goleuo a'u harwyddo'n gywir ar hyd wyneb y strwythur. Yn gyffredinol, bydd prennau balk 300mm x 150mm wedi eu paentio yn goch a gwyn yn dderbyniol gan ddarparu gofod pasio diogel i gerbydau ag ochrau uchel. Rhaid i'r holl brennau balk gael eu cysylltu'n ddiogel ynghyd er mwyn rhwystro dadleoliad a bod â chonau adlewyrchol wedi eu cysylltu i'w brig fesul bylchau o 2 fetr. Caiff rhwystrau plastig wedi eu llenwi â dŵr/tywod eu defnyddio ar bob prif lwybr traffig/ ffyrdd dosbarthiadol.

8. Lle caiff cerddwyr eu dargyfeirio ar i briffordd, rhaid darparu tramwyfa i gerddwyr sydd o leia'n 1.2m o led gyda rhwystr cerddwyr cadarn gyda rheilen dapio a rheilen law. Dylid darparu rampiau o ddeunydd gwrth lithro i gynorthwyo symudedd dros gyrbau uwch.

9. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod y goleuo a'r gwarchod yn cydymffurfio â Llawlyfr Arwyddion Traffig Pennod 8. Gofyniad wrth gwblhau unrhyw waith ar y briffordd yw bod y gwaith wedi ei arwyddo'n briodol, ei ddiogelu a'i oleuo yn unol â 'Chod Ymarfer Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd', a'i fod yn bodloni Cyngor Caerdydd.

10. Dylid rhoi mesurau ar waith i atal unrhyw ddefnyddiwr priffordd rhag cael ei daro gan sbwriel, deunydd, offer neu wrthrychau eraill yn syrthio. Rhaid i lifft cyntaf pob sgaffald gael ei fyrddio'n glos â gorchudd drosto i atal sbwriel, deunydd neu wrthrychau rhag syrthio ar unrhyw ran o'r briffordd. Dylid darparu llwybrau traffig neu gerdded wedi eu gorchuddio lle bo angen hynny. Rhaid bod y sgaffald wedi ei ddiogelu bob amser i'r seilwaith gerllaw iddo neu wedi ei graffrwymo'n allanol i atal dadleoli gan gynnwys gwrthsefyll gwyntoedd cryfion ac unrhyw dywydd eithafol arall.

11. Ni ddylai sgaffald rwystro mynediad at fesuryddion dŵr, lloches fysiau, ciosg teliffon, blychau postio neu siambrau archwilio neu allanfeydd brys i unrhyw adeilad masnachol neu breifat.

12. Bydd enw, cyfeiriad, rhif ffôn swyddfa a chyswllt brys 'allan o oriau' y contractwr sgaffaldau i'w weld yn amlwg ar arwydd yn mesur 600mm x 450mm ac wedi ei gysylltu â'r sgaffald.

13. Caiff offer codi ac olwynion pwli eu ffensio'n ddigonol, ac ni chaiff llwyth ei godi na'i ostwng dros y briffordd oni bai fod diogelwch priodol i'r cyhoedd.

14. Caiff pob ysgol is ei dynnu neu ei fyrddio i mewn pan na ddefnyddir y sgaffald i rwystro mynediad nas awdurdodwyd.

15. Deiliad y drwydded fydd yn gyfrifol am y costau ddaw i law yn ymwneud â'r sgaffald y mae'r Awdurdod Priffyrdd neu unrhyw Ymgymerwr Statudol (gan gynnwys unrhyw berson arall sydd berchen ar neu sy'n defnyddio offer yn neu o dan y briffordd) yn gwneud cais rhesymol at ddibenion diogelu neu alluogi mynediad i unrhyw offer sy'n eiddo neu a ddefnyddir ganddynt, a bydd yn sicrhau na fydd difrod yn cael ei wneud i'r cyfryw offer. Ar gyfer sgaffaldau tymor hir, mae'n bosib y bydd angen ymgynghori ag ymgymerwyr statudol cyn y rhyddheir trwydded.

16. Bydd deiliad y drwydded yn cwblhau ei waith ac yn tynnu'r adeiladwaith mor fuan ag y bo modd gan atgyweirio unrhyw niwed i'r briffordd. Caiff sgaffaldau safonol eu gosod gyda phlatiau sail metal addas, ar blatiau o bren lle bo gofyn hynny er mwyn bodloni Cyngor Caerdydd.

17. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod y sgaffald yn cael ei archwilio'n gyson a'i gynnal gan berson cymwys ac y cedwir cofnodion.

18. Yn ystod cyfnod codi'r sgaffald, caiff y briffordd o amgylch y sgaffald ei brwsio a'i chynnal mewn cyflwr da i gerddwyr ac'i ddiogelu ddydd a nos fel nad yw'n peryglu neu'n achosi niwed i'r cyhoedd na dim arall.

19. Dylid arddangos copi o'r drwydded yn glir ar y safle drwy'r adeg pan fo'r sgaffald ar ei draed, a rhaid ei fod ar gael i'w archwilio gan swyddogion awdurdodedig ar alw.

20. Tynnir sylw deiliad y drwydded at Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 a phob deddfwriaeth bresennol berthnasol a Chodau Ymarfer.

**Cosb am anwybyddu**

Bydd Cyngor Caerdydd yn adfer cost lawn atgyweirio unrhyw ddifrod i'r briffordd gan Ddeiliad y Drwydded.

- Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn a phob deddfwriaeth byddwch yn agored i gamau gorfodi sy'n cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig **Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980 am rwystro ar briffordd.**
    - Is-adran 137 (Cosb am rwystro bwriadol) £100 Cosb Benodedig
    - Is-adran 137ZA Grym i orfodi'r troseddwr i symud y rhwystr
    - Is-adran 169 Rheolaeth ar Sgaffaldau (Cyflawni Trosedd dan yr isadran hon) £100 Cosb Benodedig
    - Is-adran 140 Datgymalu Sgaffald Adeiladwr (grym i symud ac adfer costau)
    - Is-adran 149 Symud pethau a adawyd ar y Briffordd gan greu niwsans ayb (Grym i symud ac adfer costau)

**Indemniad Cyfreithiol**

Bydd Deiliad y Drwydded yn indemnio a pharhau i indemnio Cyngor Caerdydd a/neu ei weision a'i asiantau yn erbyn unrhyw atebolrwydd, rhag pob hawliad, galw, gweithred, costau a iawndal sy'n codi yn sgil neu o ganlyniad i osod sgaffald ar lôn gerbydau, troedffordd neu lain laswellt.  Mae cyfnod yr indemniad i redeg o ddechrau'r gosod i ddiwedd clirio ar y sgaffaldau o'r safle. Y swm sy'n dod dan y polisi i fod yn £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr cydnabyddedig. Bydd Deiliad y Drwydded yn dangos y polisi, neu bolisïau yswiriant a derbyniadau talu am y polisi presennol i'r Awdurdod ar alw.

Anfonwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau â'ch dogfennau wedi'u hatodi i:

Cyngor Caerdydd – Gwasanaethau Cymdogaethau, Yst 3001, neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, CAERDYDD CF10 4UW - NeighbourhoodServices-BusinessSupport@cardiff.gov.uk